

# Diolchgarwch 2019

## Trefn Gwasanaeth

Tymor i  
**newid**

### Gweithred agoriadol

Gosodwch arddangosfa o lysiau organig yn nhu blaen yr eglwys; gwnewch arwydd sy'n dweud yn glir mai organig ydynt. Hefyd cynhwyswch faner India os yn bosibl, i osod cyd-destun stori Tymor i Newid / Diolchgarwch.

### Ymatebion agoriadol

Deuwn ynghyd gyda'n  
llawenydd a'n poen  
ein ffydd a'n amheuon  
**i rannu mewn diolch a mawl.**

Deuwn ynghyd  
i geisio a chanfod  
i ddysgu a thyfu  
**i rannu mewn diolch a mawl.**

Deuwn ynghyd  
i roi diolch am ddigonedd  
i ddathlu rhoddion bywyd  
**i rannu mewn diolch a mawl.**

Deuwn ynghyd  
gyda chwirydd a brodyr  
yn bresennol yma ac o amgylch y byd  
**i rannu mewn diolch a mawl.**

Deuwn ynghyd  
i addoli a rhoi gogoniant i Dduw  
a oedd, ac y mae, ac y bydd i ddod  
**i rannu mewn diolch a mawl.**

### Cân

#### Gweddi dynesu

Dduw'r tymhorau,  
o gwsg y gaeaf  
i obaith y gwanwyn  
**Deuwn i'th bresenoldeb di.**

Iesu a ddywedodd storïau  
am fathau o bridd a hau had  
ac a rybuddiodd yn erbyn codi estyniad i'r sgubor  
**Deuwn i ddysgu gennyt ti.**

Ysbryd sy'n ysbrydoli  
asiant y Greadigaeth  
sy'n symud fel y gwynt  
**Deuwn i glywed gennyt ti.**

(distawrwydd)

Wrth inni feddwl am y Cynhaeaf yn ein bywyd, ein  
cymunedau ac o amgylch dy fyd, deuwn atat ti yn  
chwilio am obaith, nerth a maddeuant.

#### Gweddi gyffes

Dduw'r Greadigaeth, rhown ddiolch am y Ddaear a'r  
cynefinoedd sydd ynnddi a'r bywyd a gynhelir yma.  
Cyffeswn y ffyrdd yr amharchwn y rhodd sydd yn y  
Ddaear inni:  
datgoedwigo, difodiant rhywogaethau, newid hinsawdd,  
Greawdwr Dduw,  
**maddau inni.**

Dduw'r Greadigaeth, rhown ddiolch am bridd,  
am y maeth sydd ynddo a'r bywyd a gynhelir ynddo.  
Cyffeswn y ffyrdd yr amharchwn y rhodd sydd yn y  
pridd inni:

ffermio cemegol, gwacâd y pridd, mwyngloddio  
ymosodol

Greawdwr Dduw,

**maddau inni.**

Dduw'r Greadigaeth, rhown ddiolch am ddŵr  
am yr amrywiaeth sydd ynddo a'r bywyd a gynhelir  
ynddo.

Cyffeswn y ffyrdd yr amharchwn y rhodd sydd yn y dŵr  
inni:

llygredd plastig, gor-bysgota, gwenwyniad cemegol

Greawdwr Dduw,

**maddau inni.**

Dduw'r Greadigaeth, rhown ddiolch iti am dy ras  
am dy fodlonrwydd i faddau ac adfer.

Rhyddha ni o ddigalondid i obaith

o gael ein gorlethu i weithredu

Greawdwr Dduw,

**trawsnewidia ni.**

## **Darlleniad o'r Beibl**

### **Gwinllan Naboth – darlleniad dramatig o 1 Brenhinoedd 21:1-22**

<b>Cast</b>	Llefarydd, Brenin Ahab, Naboth, Jesebel, dau ddihiryn, Duw, Elias.
<b>Llefarydd:</b>	Roedd gan Naboth winllan yn ymyl palas y Brenin Ahab. A dywedodd Ahab wrth Naboth,
<b>Ahab:</b>	Rho dy winllan i mi, er mwyn imi ei chael hi fel gardd lysiau, oherwydd mae'n agos at fy nhŷ; rhoddaf iti winllan well amdani; neu os yw'n dda yn d'olwg, rhoddaf arian iti amdani.
<b>Llefarydd:</b>	Ond meddai Naboth wrth Ahab,
<b>Naboth:</b>	Gwahardda'r Arglwydd fi rhag rhoi etifeddiaeth fy hynafiaid i ti.

**Llefarydd:** Aeth Ahab adref yn ddig a diserch  
oherwydd yr hyn ddwedodd Naboth  
wrtho; oherwydd dywedodd, 'Ni  
roddaf etifeddiaeth fy hynafiaid  
i ti.' Gorwedodd ar ei wely, troi  
ei wyneb i ffwrdd a gwrthododd  
fwyta. Daeth Jesebel ei wraig ato a  
dweud,

**Jesebel:** Pam dy fod mor ddi-hwyl nes dy fod  
yn gwrthod bwyta?

**Llefarydd:** Meddai wrthi,

**Ahab:** Oherwydd imi siarad gyda Naboth  
a dweud wrtho, 'Rho imi dy winllan  
am arian; neu, os ydi'n well gennyt,  
rhoddaf winllan arall yn ei lle hi.' Ond  
atebodd, 'Ni roddaf fy ngwinllan iti.'

**Llefarydd:** Meddai ei wraig Jesebel wrtho,

**Jesebel:** Ai ti sy'n frenin ar Israel yn awr?  
Coda, bwyta a bydd lawen. Rhoddaf  
winllan Naboth iti.

**Llefarydd:** Felly ysgrifennodd llythyrau yn enw  
Ahab a'u selio gyda'i sêl. Anfonodd y  
llythyrau i'r hynafgwyr a'r pwysigion  
oedd yn byw gyda Naboth yn y  
ddinas. Ysgrifennodd yn y llythyrau,

**Jesebel:** Cyhoeddwoch ympryd, a gosodwch  
Naboth ar ben y cynulliad;  
eisteddwch ddau ddihiryn gyferbyn  
ag ef a sicrhewch eu bod yn dod  
â chyhuddiad yn ei erbyn, gan  
ddweud, 'Rwyd wedi mellithio Duw  
a'r brenin.' Yna ewch ag ef allan a  
llabyddiwch ef i farwolaeth.

**Llefarydd:** Gwnaeth dynion y ddinas, yr  
hynafgwyr a'r pwysigion, yn union  
fel y gorchynnodd Jesebel iddynt.  
Yn union fel y llythyr, fe gyhoeddwyd  
ympryd ac eistedd Naboth ar ben  
y cynulliad. Daeth y ddau ddihiryn  
i mewn ac eistedd gyferbyn ag ef,  
a daethant â chyhuddiad yn erbyn  
Naboth ym mhresenoldeb y bobl,  
gan ddweud,

**Dau ddihiryn:** Melltithiodd Naboth Dduw a'r brenin.

**Llefarydd:** Felly aethant ag ef allan o'r ddinas a'i labyddio i farwolaeth. Yna dywedasant wrth Jesebel,

**Dau ddihiryn:** Mae Naboth wedi ei labyddio; mae'n farw.

**Llefarydd:** Cyn gynted ag y clywodd Jesebel fod Naboth wedi marw, dywedodd wrth Ahab,

**Jesebel:** Dos, cymer feddiant o winllan Naboth, a wrthododd ei rhoi iti am arian; oherwydd dyw Naboth ddim yn fyw mae wedi marw.

**Llefarydd:** Cyn gynted ag y clywodd Ahab fod Naboth wedi marw, paratôdd i fynd i lawr i winllan Naboth a chymryd meddiant ohoni. Yna daeth gair yr Arglwydd i'r proffwyd Elias a dweud,

**Duw:** Dos i lawr i gyfarfod Ahab Brenin Israel, sy'n rheoli yn Samaria; mae yng ngwinllan Naboth, er mwyn cymryd meddiant ohoni. Dywed wrtho, 'Dyma ddywed yr Arglwydd, "Wyt ti wedi lladd a hefyd cymryd meddiant?" Dywed wrtho hefyd, "Dyma a ddywed yr Arglwydd, Yn y fan lle llyfodd y cŵn waed Naboth, byddant hefyd yn llifo dy waed di."

**Llefarydd:** Dywedodd Ahab wrth Elias,

**Ahab:** Wyt ti wedi fy nghanfod, fy ngelyn?

**Llefarydd:** Atebodd,

**Elias:** Rwyf wedi dy ganfod. Oherwydd dy fod wedi gwerthu dy hun i wneud yr hyn sy'n ddrwg yng ngolwg yr Arglwydd, dof â thrychineb ar dy ben. Byddaf yn gwneud drwg i ti oherwydd iti ennyn fy nicter a gwneud i Israel bechu.

## Cân

### Darlleniad o'r Efengyl

Luc 16:1-13

## Cân

### Pregeth

### Offrwm

### Gweddïau eiriolaeth

Gweddïwn am newid  
am i'r cau allan cymdeithasol yn India ddod i ben  
na fydd neb yn cael eu gadael ar ôl  
oherwydd eu cast neu eu rhyw  
am i ragfarn a stigma ddod i ben  
am i'th holl blant gael eu cynnwys  
Arglwydd yn dy drugaredd,

#### Tyfa dymor o newid.

Gweddïwn am newid  
am i ymarferion ffermio sy'n  
amharu ar iechyd y gweithwyr  
ac sy'n llygru'r cyrff a'r tir  
ddod i ben  
am ddiwedd ffermio cemegol  
am i ffermio naturiol ddod yn norm  
Arglwydd yn dy drugaredd,

#### Meithrin dymor o newid.

Gweddïwn am newid  
am i gamddefnydd o rym  
sy'n ecsbloetio a chau allan  
sy'n rhoi elw o flaen pobl  
ddod i ben  
am ddiwedd elw personol tymor byr dros  
ffyniant tymor hir yr holl Greadigaeth  
Arglwydd yn dy drugaredd,

#### Cynaeafa dymor o newid.

## Cân

## Y fendith

Bydded i Dduw'r holl dymhorau  
ein hanfon allan fel proffwydi amaethyddol  
I dyfu urddas  
I feithrin cydraddoldeb  
I gynaeafu cyfiawnder  
I gyd-sefyll â'r holl Greadigaeth  
Yn cyhoeddi mai dyma'r Tymor i Newid

Ym mhopeth a ddwedwn

Ym mhopeth a wnawn

Ym mhopeth a ydym

Yn awr a hyd byth

Amen.

## Emynau posibl

**Dyma emynau posibl o Caneuon Ffydd, ond teimlwch yn rhydd i ddewis pan emyn bynnag sy'n gweddu i'ch cynulleidfa chi.**

**64** Tydi sy deilwng oll o'm cân

**71** Yn dy law y mae f'amserau

**81** Pan ddaw pob tymor yn ei dro

**100** Ti sy'n llywio rhod yr amser

**102** Fy enaid, bendithia yr Arglwydd

**125** Diolch am roddi inni'r bore